# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

## Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: 29/11/16

Lleoliad: Ystafell Gynadledda C

Yn bresennol:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Suzy Davies AC | Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth |
| Russell George AC | |
| Neil Hamilton AC | |
| Elin Jones AC | |
| Mark Isherwood AC | |
| Joshua Bell ar ran Hannah Blythyn AC | |
| Jill Sweet ar ran Caroline Jones AC | |
| Jacqueline Janssen | Cymdeithas Gweithredwyr Hunan Ddarpar Cymru |
| Jan (John) Meulendijk | Cymdeithas Gweithredwyr Hunan Ddarpar Cymru |
| David Chapman | Cymdeithas Lletygarwch Prydain |
| Adrian Barsby | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Paul Loveluck | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Mandy Davies | Cynghrair Twristiaeth Cymru ac aelod o'r Bwrdd Cynghori Twristiaeth |
| Tom Smith | Intern gyda Suzy Davies AC |
| Craig Lawton | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth |

Ymddiheuriadau:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Neil McEvoy AC | |
| David Rowlands AC | |

Crynodeb o'r cyfarfod:

1. **Dewis a chadarnhau'r Cadeirydd**

Enwebodd Suzy Davies fod yn Gadeirydd gan Russell George

Eiliodd Neil Hamilton y cynnig

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Cadarnhawyd mai SD fydd Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth am y flwyddyn sydd i ddod.

Enwebwyd Craig Lawton i fod yn Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth gan Suzy Davies.

Eiliodd Adrian Greason-Walker y cynnig.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Cadarnhawyd mai CL fydd Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth.

## 2. Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gynghrair Twristiaeth Cymru

Darparodd AGW y wybodaeth ddiweddaraf yn gryno o ran llywodraethiant Cynghrair Twristiaeth Cymru, a chadarnhaodd eu bod bellach yn hunan-ariannu'n llwyr.

Cadarnhawyd yr hoffai'r Gynghrair, wrth symud ymlaen, drafod y ddeddfwriaeth sy'n cael effaith ar y sector twristiaeth yng Nghymru a, lle bo angen, fynegi barn ynghylch newidiadau posibl.

Y materion y mae aelodau Cynghrair Twristiaeth Cymru ar hyn o bryd yn canolbwyntio arnynt:

- Brexit
- Y ddelwedd sydd gan Gymru mewn gwledydd tramor, fel y'i cyfleir gan Lywodraeth Cymru
- Rhanbarthau Cymru, a'u cynrychiolaeth mewn gwahanol ardaloedd
- Wythnos Twristiaeth Cymru. Nid yw bellach yn cynnwys y penwythnos na Dydd Gŵyl Dewi. Dyma'r dyddiad newydd: 15 Mai hyd at 21 Mai
- Ymysg y cynlluniau ar gyfer Wythnos Twristiaeth Cymru mae cynhadledd arfaethedig, canolbwyntio ar fwyd a diod i raddau, a gweithio gyda cholegau a sefydliadau addysg bellach.
- Osgoi unrhyw oblygiadau anfwriadol a ddaw yn sgil deddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru

Mae gan Gynghrair Twristiaeth Cymru 6,000 o aelodau

Gofynnodd SD sut y mae'r Gynghrair yn edrych ymlaen o ran materion a pholisi

AGW - Y Gynghrair i ymgysylltu â San Steffan hefyd

Mae'r Gynghrair yn ceisio rhoi eu hunain ar restrau e-bost er mwyn iddynt allu clywed gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill pan fo ymgynghoriadau ac ati'n cael eu cynnal.

Mae hyn wedi bod yn anodd.

Hoffai'r Gynghrair glywed rhagor gan swyddogion mewn cynghorau ynghyd â swyddogion Llywodraeth Cymru

Gall ymgynghoriadau tri mis o hyd fod yn annigonol o ran amser os yw'r Gynghrair yn bwriadu ceisio ymgysylltu â'i haelodau, cael ymatebion, coladu'r ymatebion, ac yna ymateb iddynt.

Dibynnir yn aml ar aelodau'n dod â materion i sylw'r Gynghrair, ynghyd ag Aelodau'r Cynulliad yn codi materion yn yr un modd.

Ychwanegodd Adrian Barsby na ddylid ystyried twristiaeth ar ei ben ei hun, ac y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol ystyried materion o wahanol ardaloedd a allai gael effaith ar dwristiaeth

Hoffai SD i Aelodau'r Cynulliad gael eu defnyddio'n well ac yn fwy effeithiol, gan ychwanegu ei bod yn gobeithio y bydd y Gynghrair yn cysylltu ag Aelodau yn uniongyrchol yn y dyfodol, yn hytrach na chyda Llywodraeth Cymru pan fo ganddynt bryderon, er mwyn i Aelodau'r Cynulliad ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gofynnodd Jill Sweet sawl busnes y mae'r Gynrhair yn ei gynrychioli.

Nododd AGW fod y Gynghrair yn sefydliad ambarél ar gyfer sefydliadau eraill sydd ag aelodau.

Nid yw llawer o'r grwpiau a'r sefydliadau'n ymgysylltu bob tro, gan nad yw pob mater yn berthnasol i bawb.

Gofynnodd Mark Isherwood AC p'un a oedd y Gynghrair yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd Pwyllgorau yn y Senedd.

Cadarnhaodd AGW fod y Gynghrair yn cael ei gwahodd i roi tystiolaeth i bwyllgorau'n achlysurol.

3. **Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gymdeithas Gweithredwyr Hunan-ddarpar Cymru ynghylch effaith Ardrethi Busnes ar fusnesau hunanarlwyo.**

Cadarnhaodd Jan (John) Meulendijk ei fod wedi gweithio ym maes hunanarlwyo mewn twristiaeth ers 19 mlynedd a bod ei wraig ac yntau'n berchnogion ar naw bwthyn gwyliau hunanarlwyo.

Maent wedi gofyn i'r tribiwnlys lleol a chenedlaethol i ostwng eu hardrethi busnes yn ystod y flwyddyn.

Yn y flwyddyn 2000, roedd ardrethi busns yn tua £2,000 am bob £100,000 o drosiant.
Yn 2005, fe'i cynyddwyd i £7,500.
Yn 2010, fe'i cynyddwyd eto i £13,000.

At hynny, ychwanegodd nad yw busnesau, o ganlyniad, ond yn gallu cadw eu pennau uwchben y dŵr o ran chwyddiant, ond na allant wneud unrhyw beth arall ar y pwynt hwn.

Yn 2017, bydd busnesau naill ai'n sefyll yn stond neu'n colli ychydig o incwm yn ei dyb ef.

Mae rhai busnesau hunanarlwyo'n gweld cynydd o 40-70 y cant yn eu hardrethi, e.e. £6,000 hyd at £11,500.

Mae rhyddhad ardrethi wedi bod o gymorth i lawer o fusnesau, ond nid ar gyfer y rheiny sydd â dros tua 6 o fythynnod hunanarlwyo. Mae gan y rhain ddigon o fusnes i wneud bywoliaeth o'u busnes, ond mae'r cynydd mewn ardrethi busnes wedi golygu nad dyma'r achos bellach i lawer.

Ar ôl y cynydd yn 2010, nid oedd hyd yn oed tymhorau'r haf yn dod ag elw. Yn y gorffennol, gwelwyd elw yn yr haf ond ddim yn y gaeaf.

Mae rhai busnesau wedi gweld eu hunain yn gorfod mynd i'r llys bob pum mlynedd er mwyn herio penderfyniad Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mewn sawl achos, maent wedi llwyddo.

Teimlir bod gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio lawer o ddisgresiwn.

Mae llawer o fusnesau'n defnyddio rhent eu busnes fel sail i'w penderfyniad. Fodd bynnag, i lawer o fusnesau hunanarlwyo, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio'n defnyddio derbynebau a gwariant fel sail ar gyfer eu prisio.

Golyga hyn fod busnesau hunanarlwyo'n teimlo fel petaent yn cael eu trin yn llym.

Yn ei dro, golyga hyn na all berchnogion fuddsoddi yn eu busnesau i'w cadw ar y safon y dylent fod, neu eu gwella.

Gofynnodd Russell George AC os oedd y broses o ailbrisio gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn effeithio ar y sector twristiaeth yn anghymesur, ac a oes proses ar gyfer herio penderfyniadau cyn y cam o fynd i'r llys.

Dywedodd Jacqueline Janssen eu bod yn teimlo bod busnesau twristiaeth yn cael eu heffeithio'n anghymesur ac, o'i phrofiad hi, ni chânt eu rhestru gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Ychwanegodd JM eu bod yn ei chael yn anodd iawn trafod y materion hyn gyda'r Asiantaeth.

4. **Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gymdeithas Lletygarwch Prydain ynghylch Ardrethi Busnes**

Ychwanegodd David Chapman fod nifer o fusnesau eraill yn dibynnu ar y diwydiant llety, ac bod swyddi'n ddibynnol ar y diwydiant hwnnw hefyd. Mae gwestai mawrion yn debyg i ffatrïoedd o ran nifer y staff y maent yn ei gyflogi.

Ychwanegodd DC fod y Gymdeithas yn teimlo bod ardrethi busnes yn rhan o system hen ffasiwn, a bod angen newid.

Po fwyaf o arian y bydd perchnogion busnes yn ei fuddsoddi i'w busnes, y mwyaf fydd eu busnes yn cynyddu mewn gwerth - fodd bynnag, mae hyn yn arwain at gynnydd mewn ardrethi busnes hefyd.

Yn annhebyg i ffatrïoedd, a all adleoli mewn rhai amgylchiadau, nid yw busnesau llety yn gallu gwneud hyn.

Dyma rai enghreifftiau o gynnydd:

Bu cynnydd o 189 y cant i fusnes yn Llandudno

Bu cynnydd i Tesco Saundersfoot o £25,000 i £28,000, ond bu cynnydd i westy yn yr un ardal o £15,000 i £25,000

Hoffai'r Gymdeithas wybod beth yn rhagor y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu yn y maes hwn.

Ychwanegodd Elin Jones AC fod twristiaeth yn bwysig i orllewin Cymru a bod angen newid yn y system yn y tymor hir, ond bod hefyd angen ateb tymor byr er mwyn gwrthsefyll y cynnydd anghymesur y mae nifer o fusnesau yn eu gweld.

Gofynnodd AJ beth oedd fformiwla Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar gyfer prisio.

Dywedodd DC fod buddsoddi mewn busnesau a chynyddu maint y llawr yn enghreifftiau o sut y bydd yr Asiantaeth yn cyfrifo ardrethi.

Ychwanegwyd bod nifer o fusnesau am ystyried ychwanegu at eu busnesau gyda spa, bwytai, a syniadau eraill a allai arwain at newid yn yr adeiladau gan, yn ei dro, arwain at ardrethi uwch.

Gofynnodd EJ a ddylai Llywodraeth Cymru anelu at gyllido cynllun o ryddhad ardrethi, yn arbennig i fusnesau gwestai a thwristiaeth.

Nododd DC fod rhai aelodau'n gweld cynnydd o £30,000, ac y byddai unrhyw gymorth ar gyfer y tymor byr yn unig mewn achosion o'r fath.

Gofynnopdd RG a oedd unrhyw dystiolaeth y gellid ei ddefnyddio i ddangos bod y sector twristiaeth angen cymorth.

Ychwanegodd DC nad yw cymharu'r sector yn llesol gan fod gwahanol rannau o'r sector twristiaeth yn wahanol iawn i'w gilydd, ac felly byddai profiadau gwahanol ganddynt oll.

Nododd AGW fod seilwaith cyllido eisoes wedi bodoli, a bod hwn wedi helpu busnesau.

Ychwanegodd AGW fod ACau angen gwaith ymchwil a gwybodaeth gadarn, nad yw'r Gymdeithas yn gallu ei ddarparu i'r lefel priodol.

Mae'r diwydiant yn dameidiog iawn, ac mae'n anodd casglu gwybodaeth a chynnal gwaith ymchwil o'r herwydd.

Ychwanegodd Adrian Barsby nad yw gwestai da ond yn gallu gwneud elw o tua 20 y cant o gymharu â mathau eraill o fusnesau mewn nifer o achosion.

Dywedodd JM at hynny fod busnesau hunanarlwyo yn buddsoddi yn eu busnesau er mwyn cadw gwasanaeth yn gyson, yn hytrach na gweld unrhyw welliant, ond bod hyn hefyd yn arwain at ardrethi uwch.

Ychwanegodd DC fod saith mlynedd yn gyfnod hir rhwng ailbrisio, a bod nifer o newidiadau mawr wedi digwydd yn y cyfamser.

Nododd RG fod yr Asiantaeth wedi cael eu gwahodd tua tair wythnos yn ôl i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Economi y mae'n ei gadeirio.

Gofynnodd MI a ydyw'r rheol 70 diwrnod yn parhau i fod yn broblem.

Ymatebodd JM gan nodi fod busnesau hunanarlwyo yn cystadlu â busnesau eraill ynghyd â'r diwydiant gwyliau tramor, ac ei bod bellach yn anos cyrraedd 70 diwrnod oherwydd y gystadleuaeth.

Mae tymor y gaeaf yn golygu llai fyth o fusnes.

5. **Trafodaeth ar aelodau posibl y Grŵp Trawsbleidiol a meysydd i ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod**

**Ac**

6. **Unrhyw fater arall**

Nododd DC fod y Gymdeithas wedi cyflwyno tystiolaeth i Ysgrifennydd yr Economi, Llywodraeth Cymru, ac y bydd hynny ar gynnig i'r Grŵp Trawsbleidiol pan fo hynny'n briodol.

Roedd hyn mewn cysylltiad â'r busnesau hunanarlwyo a'r busnesau llety fel ei gilydd.

Daeth SD â'r cyfarfod i ben gan nodi y byddai hi, fel cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, yn ysgrifennu at bennaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gofyn am eu fformiwla.

Ychwanegwyd y trafodir â CL ac AGW ynghylch cyfarfod pellach ddiwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y mater hwn ac ystyried unrhyw feysydd pellach sydd o ddiddordeb o fewn sector twristiaeth Cymru.

At hynny, ychwanegwyd y byddai i bob ardal ddaearyddol yng Nghymru angen rhywfaint o sylw.

Nododd Paul Loveluck fod angen ystyried yr effaith yn y tymor byr a'r tymor hir a gaiff Brexit, a bod angen trafodaeth yn ei gylch.

Ychwanegodd MI y dylai sefydliadau hefyd roi mewnbwn i Bwllgor y Cynulliad sy'n canolbwyntio ar Brexit ar hyn o bryd.

Ychwanegodd PL fod Cynghrair Twristiaeth Cymru hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd.

Daeth SD â'r cyfarfod i ben, gan ddiolch i'r rheiny a fu'n bresennol ac a gyfrannodd, a nododd y byddai gwybodaeth ynghylch y cyfarfod nesaf yn cael ei hanfon pan fo rhagor o wybodaeth ar gael.